28 Ionawr 2011

PROSIECT GWYRDD

PRESS RELEASE/ **DATGANIAD I'R WASG**

TROI PROBLEM ANODD YN ADNODD

PROSIECT GWYRDD YN CYCHWYN TRAFODAETHAU MANWL GYDA CHWMNÏAU LLWYDDIANNUS

Mae Prosiect Gwyrdd wedi cyhoeddi'n ddiweddar y Cyfranogwyr sydd wedi cael eu cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y contract gwastraff gweddilliol rhwng 5 awdurdod lleol.

Mae'r Prosiect yn awr wedi cychwyn ar 'drafodaethau manwl' gyda'r cwmnïau hyn a chaiff sesiynau briffio wyneb yn wyneb eu cynnal yn ystod mis Chwefror.

Mae'r cyfranogwyr canlynol (yn nhrefn y wyddor) wedi derbyn dogfennau 'Datrysiadau Manwl', gan ddechrau cam nesaf y broses gaffael.

Covanta Energy Cyf: Mae Covanta Energy Cyf. yn cynnig sefydlu cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni masnachol ym Mrig y Cwm, Merthyr Tudful.

Veolia ES Aurora Cyf: Mae Veolia ES Aurora Cyf. yn cynnig sefydlu Cyfleuster Adfer Ynni ar Gomin Bowlease, i'r de o safle Gwaith Dur Corus Llanwern, Casnewydd.

Viridor Waste Management Cyf: Mae Viridor Waste Management Cyf. yn cynnig sefydlu cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni gyda Gwres a Phŵer Cyfunol masnachol ym Mharc Trident, Caerdydd.

Waste Recycling Group Cyf: Mae Waste recycling Group Cyf. yn cynnig sefydlu cyfleuster Gwres a Phŵer Cyfunol, Troi Gwastraff yn Ynni yn Dow Corning, Ffordd Caerdydd, Y Barri.

Roedd Waste Recycling Group Ltd wedi bwriadu lleoli'r cyfleuster yn Traston Road, Casnewydd. Fodd bynnag, mae datblygiadau o ran y trefniadau darparu yn golygu bod angen newid lleoliad y cyfleuster a'i roi yn Ffordd Caerdydd, Y Barri.

Bydd y prosiect yn rhoi contract ar gyfer y gwaith o ddarparu cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol ar gyfer y pum awdurdod partner ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, unwaith y bydd ailgylchu a chompostio yn cael ei wneud i'r eithaf ym mhob ardal. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targed o gyfradd ailgylchu a chompostio o 70%, ac mae'r awdurdodau partner wedi datblygu strategaethau gwastraff i weithio tuag at darged cyfunol o 65% gydag o leiaf 5% eto'n dod o'r broses trin gwastraff gweddilliol.

I gynorthwyo'r cam hwn yn y broses gaffael, caiff digwyddiadau i randdeiliaid eu cynnal er mwyn i drigolion a phartïon â diddordeb gael y cyfle i gysylltu â'r bartneriaeth. Caiff ymgyrch gyhoeddusrwydd ei chynnal a chaiff y cyfryngau'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd ar gael.

(Diwedd)

Cyhoeddwyd gan Prosiect Gwyrdd
E-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
Ffôn: 02920 717566 neu 07976 519413